Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

NYRSIO CRYFACH, CENEDL GRYFACH
STRONGER NURSING, STRONGER NATION

# Beth ddylai Llywodraeth nesaf Cymru ei wneud?

Adroddiad arolwg aelodau RCN Cymru ar gyfer etholiad y Senedd 2026



# Cynnwys

Ein hymatebwyr 4

Mae gofal mewn coridorau yn argyfwng cenedlaethol 6

Cyflog a dyfodol nyrsio yng Nghymru 13

Y gair olaf gan ein haelodau 18

Staff nyrsio yw asgwrn cefn gofal cleifion a'r gweithlu iechyd mwyaf. Mae llawer ohonynt yn aelodau o'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Mae'r arolwg hwn o 1,156 o aelodau RCN Cymru yn rhoi golwg unigryw ar iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru – o ysbytai trefol prysur i gymunedau gwledig anghysbell.



Ym mis Mai 2026, bydd Cymru yn ethol Llywodraeth newydd Cymru o dan system etholiadol newydd. Bydd pleidiau gwleidyddol yn ymgeisio mewn 16 etholaeth newydd yn y Senedd, y mae pob un ohonynt yn gartref i gyfartaledd o 2,000 o aelodau RCN.

Pa bynnag blaid (neu bleidiau) gwleidyddol sy'n ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru fydd yn gyfrifol am iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, a phob mater datganoledig arall.

**Bydd angen iddi ennill ymddiriedaeth staff nyrsio.**

## Mae'r arolwg hwn yn gofyn un cwestiwn allweddol: **Beth mae staff nyrsio yng Nghymru eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru ei wneud?**

Cod cyhoeddi: 012 364

# Ynglŷn â'r arolwg hwn

## Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg ar-lein o 1,156 o aelodau RCN Cymru. Roedd cyfranogwyr yr arolwg yn cynrychioli nyrsys cofrestredig, bydwragedd, gweithwyr cymorth gofal iechyd, a myfyrwyr nyrsio o bob un o bum rhanbarth gwleidyddol Cymru. Roedd yr arolwg ar-lein yn weithredol o 31 Ionawr 2025 i 31 Mawrth 2025.

Mewn cwestiynau lle roedd cyfranogwyr yn rhestru atebion yn nhrefn blaenoriaeth, rhoddwyd sgôr pwynt i bob rheng. Adiwyd y sgoriau hynny at ei gilydd ar draws yr holl ymatebwyr a'u mynegi fel canran o'r sgôr uchaf posibl. Mae hyn er mwyn galluogi cymhariaeth gliriach o flaenoriaethau aelodau waeth faint o opsiynau oedd ar gael.

Cynhaliwyd yr arolwg gan y tîm Polisi, Seneddol a Materion Cyhoeddus yn RCN Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **nicholas.unwin@rcn.org.uk.**

## Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) yw sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf y byd ar gyfer nyrsio, gan gynrychioli dros 500,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 30,500 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned. Mae'r RCN yn sefydliad sy'n cwmpasu'r DU gyfan, gyda Byrddau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.


Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio ac yn llywio polisi iechyd a gofal cymdeithasol.



# Ein hymatebwyr

Mae ein hymatebwyr yn cynrychioli'r **proffesiwn nyrsio cyfan**, ym **mhob** rhan o Gymru.

**1,156** o ymatebwyr, yn cynrychioli sbectrwm llawn ein haelodaeth.




**78.4%** yn nyrsys a bydwragedd cofrestredig


**8.5%** yn weithwyr cymorth gofal iechyd

**1.6%** yn ymarferwyr cynorthwyol

**4.2%** yn aelodau o'r RCN wedi ymddeol

**7.3%** yn fyfyrwyr nyrsio

Cawsom **ymateb cryf gan aelodau** ym mhob rhanbarth gwleidyddol.



**19.5%** yn byw yng Ngogledd Cymru


**17.2%** yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**19.2%** yn byw yn Ne Cymru


**25.5%** yn byw yng Nghanol De Cymru

**18.9%** yn byw yn Ne-ddwyrain Cymru

## Er bod **ychydig dros hanner** yn gweithio yn ysbytai'r GIG, mae **dros draean** wedi'u lleoli yn y gymuned.




Mae mwy nag un o bob deg ymatebydd yn gweithio'n bennaf i **bractis meddyg teulu neu gyflogwr yn y sector annibynnol** fel cartref gofal, asiantaeth nyrsio, neu yn y trydydd sector.






Rhan Dau

# Mae gofal mewn coridorau yn argyfwng cenedlaethol

Mae "**gofal mewn coridorau**" wedi dod yn gyffredin ac wedi ymsefydlu yn GIG Cymru, gan gyflwyno risg newydd ddifrifol i fywydau cleifion.

**Beth yw gofal mewn coridorau?**

- Cleifion yn cael eu trin mewn mannau anniogel, amhriodol - coridorau, storfeydd, ystafelloedd aros, hyd yn oed mewn toiledau
- Caiff ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd i reoli pwysau mewn adrannau brys


**Pam mae'n anniogel?**

- Gallai offer ocsigen/sugno a rennir achosi oedi i ofal brys
- Dim digon o le ar gyfer ymyraethau mewn argyfwng
- Dim digon o nyrsys i fonitro cleifion yn ddiogel
- Dim preifatrwydd yn ystod archwiliadau personol
- Gormod o bobl mewn mannau glanhau, hylendid, ac allanfeydd tân

> Mae'r argyfwng hwn bron cynddrwg â'r pandemig.

Mae **61.8%** o'n haelodau sy'n gweithio yn ysbytai GIG Cymru yn dweud bod **gofal mewn coridorau yn broblem** lle maen nhw'n gweithio.

Canran yr holl ymatebwyr sy'n nodi bod gofal mewn coridorau yn broblem yn eu tîm neu weithle:



## Sut mae **gofal mewn coridorau'n** digwydd






Y peth gwaethaf am nyrsio O BELL FFORDD yw'r broblem gofal mewn coridor. Mae wedi gwneud i mi **eisiau gadael y proffesiwn.** Mae'r diffyg urddas yn ffiaidd, ac rwy'n teimlo fel methiant bob tro rwy'n mynd i'r gwaith, er fy mod yn **gweithio'n galetach nag erioed** ar gyfer fy nghleifion.

Rydym yn cyrraedd pen ein tennyn. Nid yw adrannau brys yn gallu gweithredu mwyach ac rydym yn achosi niwed i gleifion. **Rhaid i ofal mewn coridorau ddod i ben!**

Mae'r darlun cyfan yn llwm... mae **angen i'r llywodraeth gymryd cyfrifoldeb [ac] atebolrwydd.**

## Mae mwyafrif aelodau RCN Cymru ym **mhob rhanbarth o Gymru** yn nodi eu bod yn gweld gofal mewn coridorau lle maent yn gweithio.

Does dim dianc rhag gofal mewn coridorau yn **unrhyw ranbarth yng Nghymru**.

Mae'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru yn arbennig o ddifrifol. Dywedodd dros ddwy ran o dair o aelodau'r RCN yng Ngogledd Cymru fod gofal mewn coridorau yn broblem yn eu gweithle. **Mae hynny 28.0% yn fwy nag yng Nghanol De Cymru.**

*Isod: canrannau'r ymatebwyr sy'n gweithio'n bennaf yn ysbytai GIG Cymru a ymatebodd naill ai "ydy" neu "ydy, yn aml" pan ofynnwyd iddynt a oedd gofal mewn coridorau yn broblem yn eu tîm neu eu gweithle.*


**68.5%**
Gogledd Cymru

**62.2%**
Canolbarth a Gorllewin Cymru

**62.6%**
Gorllewin De Cymru

**53.5%**
Canol De Cymru

**64.2%**
Dwyrain De Cymru



> Mae pawb wedi **blino'n llwyr** o'r nyrsys a'r meddygon i'r glanhawyr a'r porthorion yn y GIG yng Ngogledd Cymru.
>
> Mae'n warthus ac yn gywilyddus faint o bobl oedrannus neu bobl sy'n sâl iawn ac yn agored i niwed sy'n cael eu trin mewn coridorau neu'n cael eu gadael i aros am 24 awr cyn iddynt fynd ar ward.

## Er mwyn dod â gofal mewn coridorau i ben, mae ein haelodau yn dweud y dylid **buddsoddi mewn gofal cymunedol**.

Er mwyn dod â gofal mewn coridorau i ben, mae aelodau RCN Cymru yn dweud mai'r camau gweithredu hyn ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru yw'r pwysicaf:

*(Sgorau yn eu trefn fel % o'r pwyntiau mwyaf posibl)*

| Cam gweithredu | Sgôr |
|---|---|
| 1. Buddsoddi mewn nyrsio cymunedol. | 72.1% |
| 2. Ei wneud yn ddigwyddiad "byth" i gleifion dderbyn gofal mewn cadeiriau am dros 24 awr. | 70.8% |
| 3. Cynyddu capasiti mewn gofal sylfaenol. | 67.7% |




Mae **52.1%** o'n hymatebwyr wedi'u lleoli mewn ysbytai – ac eto maent yn dweud bod **buddsoddi y tu allan i'r ysbyty yn hanfodol.**

> Ymddengys bod pawb yn gwybod mai'r ffordd i'w ddatrys yw rhyddhau mwy o gleifion sy'n feddygol iach ar wardiau i'r gymuned. **Nid yw hyn yn digwydd o hyd.**

## **Cefnogi cartrefi gofal** fel rhan hanfodol o ofal cymunedol.

Pan fydd cartrefi gofal yn cyflogi nyrsys cofrestredig, gellir trin preswylwyr a fyddai fel arall angen ysbyty lle maen nhw'n byw Mae hyn yn well i bawb.


I **gefnogi nyrsio mewn cartrefi gofal**, dywedodd ein hymatebwyr mai'r tri cham gweithredu hyn gan Lywodraeth Cymru sydd bwysicaf:

*(Sgorau yn eu trefn fel % o'r pwyntiau mwyaf posibl)*

1. Hyrwyddo nyrsio cofrestredig mewn cartrefi gofal gydag ymgyrch genedlaethol. — Sgôr **76.4%**
2. Ariannu'r sector gofal yng Nghymru yn deg ac yn gynaliadwy. — Sgôr **72.8%**
3. Sicrhau bod gan bob aelod o staff nyrsio yn y sector annibynnol gyflog a buddion sy'n gyfartal â'r GIG. — Sgôr **71.9%**

Mae Aelodau yng **Ngogledd Cymru** ac yng **Nghanolbarth a Gorllewin Cymru** yn arbennig o bryderus ynghylch sicrhau bod cyflog a buddion yn y sector annibynnol yn cyfateb i'r rhai yn y GIG.

Yn y rhanbarthau hyn, y mater hwn oedd yr ail flaenoriaeth bwysicaf, o'i gymharu â'r trydydd safle ar y lefel genedlaethol.



Gogledd Cymru    Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Buddsoddi mwy yn **iechyd pobl** yn ogystal â'u gofal.

Mae **nyrsys cofrestredig** yn helpu pobl o bob oed i aros yn iachach.

Mae ymwelwyr iechyd yn helpu i roi'r dechrau iachaf mewn bywyd i blant.

Mae nyrsys ysgol yn cefnogi iechyd plant wrth iddynt dyfu.

Mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn helpu pobl i aros yn iach yn y gwaith. Mae nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned (gan gynnwys meddygaeth deuluol a gofal sylfaenol) yn helpu pobl o bob oed ag anableddau dysgu, neu gyflyrau cronig fel asthma a diabetes.

> Nid yw'r cyllid a'r adnoddau sy'n cael eu buddsoddi mewn dulliau ataliol **yn ddigon**. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio mewn modd ymatebol ...
> Os ydym yn buddsoddi mewn mynd i'r afael â phroblemau'n gynnar, gallwn eu hatal rhag dod yn feichus. Gellir gwneud hyn drwy weithio ar ein gofal sylfaenol.



## Er mwyn **gwella iechyd y cyhoedd**, mae ein hymatebwyr yn dweud y dylai llywodraeth nesaf Cymru:

*(Sgorau yn eu trefn fel % o'r pwyntiau mwyaf posibl)*

1. Cynyddu nifer y nyrsys mewn gofal sylfaenol, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a nyrsys iechyd galwedigaethol.

Sgôr **93.6%**

2. Buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol fel y gall pobl gael mynediad at ofal yn gynnar.


Sgôr **83.0%**

3. Annog pobl i fod yn fwy corfforol egnïol.

Sgôr **65.5%**

Yng **Ngorllewin De Cymru**, roedd aelodau'n arbennig o bryderus am **wasanaethau camddefnyddio alcohol a sylweddau**. Dim ond y rhanbarth hwn a'u gosododd yn bedwerydd o ran pwysigrwydd. Ym mhob rhanbarth arall, aeth gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn y pedwerydd safle.

Roedd y tri uchaf yr un fath ym mhob rhanbarth o Gymru.



Gorllewin De Cymru

# Cyflog a dyfodol nyrsio yng Nghymru


Mae **84.9%** o aelodau yng Nghymru yn teimlo **nad yw eu cyflog yn adlewyrchu eu gwerth**.

Yn arolwg cyflogaeth diweddaraf RCN, a gyhoeddwyd yn 2023, nododd 74% o'r ymatebwyr yng Nghymru eu bod yn gweithio goramser o leiaf unwaith yr wythnos. O'r rhain, dywedodd mwy na 40% fod y gwaith hwn fel arfer yn ddi-dâl.

Os yw 74% o nyrsys GIG Cymru yn gweithio pedair awr ychwanegol yr wythnos, mae hynny'n golygu bod GIG Cymru yn elwa o 73,651 awr ychwanegol o lafur nyrsio bob wythnos.

Mae hynny'n cyfateb i gyflogi 1,964 o nyrsys amser llawn ychwanegol.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd eu cyflog presennol yn adlewyrchu eu lefel addysg, sgiliau a phrofiad yn deg, atebodd ein hymatebwyr:




> Rydych chi'n meddwl tybed pam mae nyrsys yn gadael. Rydym yn gorweithio, nid ydym yn cael oriau gwaith hyblyg ac, os ydym yn trafod y materion hanfodol hyn, rydym yn cael ein hystyried yn ddadleugar.


> Rydw i ond wedi bod yn nyrs am dair blynedd, ac rydw i eisoes yn ystyried symud i lwybr gyrfa hollol wahanol am **yr un cyflog a llawer llai o straen**.

Ym mhob rhanbarth, mae ein haelodau'n dweud mai **cyflog yw'r rhwystr mwyaf** i recriwtio a chadw staff nyrsio.

Mae ein hymatebwyr yn dweud, er mwyn **denu a chadw digon o staff nyrsio**, fod yn rhaid i gyflogwyr flaenoriaethu:

*(Sgorau yn eu trefn fel % o'r pwyntiau mwyaf posibl)*





### Cyflog

Roedd ein haelodau wedi rhestru cyflog fel **y mater pwysicaf o bell ffordd** o ran denu a chadw nyrsys. **Mae cyflog nyrsio'r GIG yng Nghymru yn parhau i fod ymhell islaw'r lefelau a welwyd cyn 2011** – er bod y galw am sgiliau nyrsio wedi tyfu. Mae cyflogau'r GIG yn gweithredu fel angor i'r sector annibynnol hefyd.

### Gweithio'n hyblyg

Mae anhawster cael mynediad at weithio hyblyg yn un peth sy'n **gyrru staff nyrsio i ffwrdd oddi wrth gyflogaeth anhyblyg y GIG** a thuag at asiantaethau, sy'n cynnig mwy o reolaeth - ac yn aml cyflog gwell. I lawer o broffesiynau eraill, gweithio hyblyg yw'r peth arferol. Pam na ddylai fod ar gyfer nyrsio?

### Datblygiad proffesiynol

Yn union fel unrhyw broffesiwn rheoleiddiedig arall, mae angen i nyrsys cofrestredig gadw eu sgiliau'n gyfredol. Enw hyn yw "datblygiad proffesiynol parhaus", neu DPP. Nid yn unig y mae DPP yn cadw cleifion yn ddiogel, ond mae hefyd yn **rhagofyniad i nyrsys ymarfer o gwbl**. Ac eto i gyd, ni fydd llawer o gyflogwyr – hyd yn oed o fewn GIG Cymru – yn cefnogi eu nyrsys i wneud unrhyw DPP yn ystod oriau gwaith.




Er mwyn tyfu'r gweithlu nyrsio, **cefnogi myfyrwyr gyda bwrsariaeth y GIG** – ac amddiffyn cyrsiau rhag cau.

Er mwyn cefnogi **addysgu'r genhedlaeth nesaf o nyrsys**, mae ein hymatebwyr yn dweud y dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

*(Sgorau yn eu trefn fel % o'r pwyntiau mwyaf posibl)*

1. Cynyddu bwrsariaeth Myfyrwyr y GIG. — Sgôr **75.6%**
2. Cefnogi prifysgolion i atal cau adrannau nyrsio. — Sgôr **60.5%**
3. Ehangu prentisiaethau gradd nyrsio yn genedlaethol. — Sgôr **56.8%**

## Nid yw bwrsariaeth GIG Cymru wedi cynyddu mewn10 mlynedd

Mae Llywodraeth Cymru yn talu ffioedd dysgu myfyrwyr nyrsio yn uniongyrchol i brifysgolion ac yn rhoi bwrsariaeth fach iddynt i gefnogi eu hastudiaethau. Ond nid yw'r bwrsari yn ddigon i atal nifer sylweddol rhag wynebu caledi ariannol.

## Y radd nyrsio

Mae dod yn nyrs gofrestredig yn cymryd amser. Mae dod yn nyrs gofrestredig brofiadol yn cymryd hyd yn oed yn hirach. Y cam cyntaf yw gradd israddedig heriol sy'n cynnwys 2,300 awr o astudio a 2,300 awr o ymarfer clinigol. Nid yw'r rhaglen yn gadael llawer o le i waith rhan-amser – ond mae'n hanfodol ar gyfer datblygu'r sgiliau clinigol a deallusol allweddol sydd eu hangen ar nyrsys. A'r wobr yw gofal mwy diogel. Mae pob cynnydd o 10% yn nifer y nyrsys cofrestredig sydd wedi cael gradd mewn ysbyty yn gysylltiedig â 7% yn is o ran marwolaethau.



> Mae cyflenwad nyrsys y dyfodol yng Nghymru mewn perygl gwirioneddol ... **gwnewch y radd yn opsiwn ariannol hyfyw i fyfyrwyr**.

Cyrhaeddodd pryderon ein haelodau ynghylch **bygythiadau i addysg uwch nyrsio** ymhell y tu hwnt i Gaerdydd.


Mae ein haelodau hefyd yn amlwg yn dal i bryderu am gynnig Prifysgol Caerdydd yn 2025 i ddod ag addysg nyrsio i ben. I'n haelodau yng Nghanol De Cymru, eu blaenoriaeth uchaf ond un yw i Lywodraeth nesaf Cymru gefnogi prifysgolion i atal adrannau nyrsio rhag cau.

Yn bwysig, mae hyn yn **bryder sylweddol i'n haelodau ledled Cymru**, gan ddod yn ail yn genedlaethol. Yng **Ngogledd Cymru** ac yng **Ngorllewin De Cymru**, aeth yr ail safle i ehangu'r llwybr prentisiaeth gradd i'r proffesiwn nyrsio.

Sut mae ymatebwyr yn dweud y dylai llywodraeth Cymru gefnogi addysg nyrsio:

*(Sgorau yn eu trefn fel % o'r pwyntiau mwyaf posibl)*

- Cynyddu bwrsari'r GIG
- Ehangu prentisiaethau gradd
- Cefnogi prifysgolion i atal adrannau nyrsio rhag cau






# Y gair olaf gan **ein haelodau...**



Buddsoddwch mewn nyrsio
Nid yw pethau'n gweithio ar hyn o bryd. Ystyriwch y darlun ehangach a sut mae'n effeithio ar gymdeithas gyfan. Mae angen arian arno ac mae angen newid enfawr arno.

Mae nyrsio yn broffesiwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n hanfodol i ddiogelwch, ac sy'n cael ei siomi a'i danariannu'n barhaus gan y llywodraeth... Mae diogelwch cleifion yn cael ei beryglu, ni all hyn barhau.

Mae'n hanfodol bod gan nyrsys lwybr dilyniant. Dylid cydnabod nyrsys am fod y gweithwyr proffesiynol y maent.

Helpwch ni cyn iddi fod yn rhy hwyr. Nid yw'r system ar fin torri, mae eisoes wedi torri. Ond mae amser o hyd i'w newid.

Buddsoddwch fwy mewn gofal sylfaenol. Mae ysbytai acíwt ar gyfer pobl sy'n wael iawn, nid cleifion sy'n aros am becynnau gofal.

Cynyddwch gyflog a chefnogaeth i nyrsys cofrestredig a myfyrwyr nyrsio. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gymhelliant sydd i bobl ymuno neu aros yn y proffesiwn.

Mae diffyg gwasanaethau gofal cymdeithasol yn methu nyrsys a'u cleifion, sy'n aros wythnosau neu fisoedd i gael eu dyrannu i weithwyr cymdeithasol a phecynnau gofal.

Peidiwch ag erydu addysg nyrsio, a chadwch fynediad graddedigion i'r proffesiwn.

# Diolch



Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

NYRSIO CRYFACH, CENEDL GRYFACH